PWYLLGOR SAFONAU

.
Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 27 Mai, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Yn Bresennol: Mrs. P. Hallett, Mr. R. Hendicott, Mrs. L. Tinsley a Mr. G. Watkins (aelodau Annibynnol); Y Cynghorydd M. Cuddy (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned), Y Cynghorwyr: Ms. R.M. Birch, B.T. Gray ac A.R. Robertson (Cyngor Bro Morgannwg).

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Mr. R. Hendicott yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar gyfer y flwyddyn Ddinesig gyfredol.

EITEM AGENDA 2. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Mrs. L. Tinsley yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar gyfer y flwyddyn Ddinesig gyfredol.

EITEM AGENDA 3. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Mr. R. Alexander.

EITEM AGENDA 4. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 6. CAIS AM GANIATÂD (SM / PGCD) –

PENDERFYNWYD – BOD Cynghorydd Cymuned Sili a Larnog, D.W. Sylvester, yn cael caniatâd i siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Sili a Larnog yn unig lle codir materion mewn perthynas â Materion Maes Chwarae, yn unol â pharagraffau (ch) a (dd) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Rhoi Caniatâd) (Cymru) 2001, tan yr etholiadau Llywodraeth Leol nesaf.

Rheswm dros y penderfyniad

Cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhwymedigaethau ar gyfer rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio.

EITEM AGENDA 7 ADRODDIAD ADBORTH YN DILYN SYLWADAU YNG NGHYFARFODYDD PWYLLGOR Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SM / PGCD) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y diweddariadau llafar a ddarparwyd gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn y cyfarfod yn cael eu nodi.

(2) BOD y bwriad i barhau i arsylwi ar gyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned a Chyngor Bro Morgannwg gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

(1 a 2) Ystyried yr arsylwi a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau.

EITEM AGENDA 8. CYFARFODYDD SWYDDOG MONITRO GYDA CHLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SM / PGCD) –

PENDERFYNWYD – BOD yr adroddiad a diweddariad llafar y Swyddog Monitro mewn perthynas â chyfarfod y Clercod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried cynnwys yr adroddiad, y diweddariad llafar a ddarparwyd gan y Swyddog Monitro a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 9. GWRANDAWIAD DATRYS ANGHYDFODAU LLEOL - PENODI CADEIRYDD (SM / PGCD) –

PENDERFYNWYD – BOD pwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi i'r tri aelod o Banel Gweithdrefn Datrys Anghydfod Lleol i benodi Cadeirydd o blith ei gilydd cyn i'r gwrandawiadau gael eu cynnal.

Rheswm dros y penderfyniad

Caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch unrhyw drefniadau neu faterion gweithdrefnol y gallai fod angen eu rhoi ar waith cyn gwrandawiad.

EITEM AGENDA 10. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM / PGCD) –

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, gan ystyried y byddai diweddariad am yr ohebiaeth a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi o dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried o dan Ran II yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu Aelodau'r Pwyllgor.

EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – o dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn golygu tebygrwydd y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) y Ddeddf. Cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen yn y cromfachau ar ôl pennawd y cofnod.

EITEM AGENDA 12. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM / PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

PENDERFYNWYD – BOD yr wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Swyddog Monitro yn cael nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.